**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL (MEMORANDWM RHIF 3)**

**Bil Caffael**

1. Gosodir y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwn (LCM) o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS29 yn nodi bod rhaid gosod LCM, a gellir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os yw Bil Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, neu at ddiben sy'n addasu'r cynhwysedd hwnnw.

2. Cyflwynwyd y Bil Caffael ("y Bil") gerbron Senedd y DU yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 11 Mai 2022 a gosodais LCM ar 9 Mehefin yn seiliedig ar y Bil fel y'i cyflwynwyd.

3. Ar 11 Gorffennaf, gosodais LCM atodol (Memorandwm Rhif 2), ar ôl i Lywodraeth y DU gyflwyno gwelliannau i'w hystyried yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi a ddechreuodd ar 4 Gorffennaf ac a barodd tan 26 Hydref.

4. Cyflwynodd Llywodraeth y DU welliannau pellach ar 15 Tachwedd a 21 Tachwedd i'w hystyried yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi. Dechreuodd Gyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi ar 28 Tachwedd.

5. Ar 18 Tachwedd, ysgrifennais at y Llywydd i esbonio y byddai'r LCM atodol hwn felly'n cwmpasu'r ddwy set o welliannau'r Llywodraeth a gyflwynwyd a'i fod wedi'i osod o fewn pythefnos i gyflwyno'r ail set.

6. Mae'r gwelliannau a gyflwynwyd i'w gweld yn: https://bills.parliament.uk/bills/3159/publications. Mae'r cymalau y cyfeirir atynt yn yr LCM atodol hwn wedi'u nodi yn y Bil fel y'i diwygiwyd gan yr Uwch-bwyllgor ac fel y'i cyhoeddwyd ar 26 Hydref. Mae modd gweld y fersiwn hon o'r Bil yn: https://bills.parliament.uk/bills/3159/publications

**Amcan(ion) Polisi**

7. Amcanion datganedig polisi Llywodraeth y DU yw:

- cyflymu a symleiddio prosesau caffael cyhoeddus
- sicrhau bod gwerth am arian yn ganolog i'r broses

- creu mwy o gyfleoedd i fusnesau bach a mentrau cymdeithasol i arloesi ym maes darparu gwasanaethau cyhoeddus.

**Crynodeb o’r Bil**

8. Noddir y Bil gan Swyddfa’r Cabinet (CO).

9. Diben y Bil yw cyflwyno deddfwriaeth ddiwygiedig ar gyfer y prosesau a'r gweithdrefnau sy'n rheoli caffael cyhoeddus. Bydd yn diwygio'r gyfraith gaffael bresennol (gan gynnwys diddymu Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015) sy'n deillio o Gyfarwyddebau'r UE.

10. Mae'r Bil yn rhyngweithio â deddfwriaeth arall, sef y Bil Partneriaethau Cymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) (Bil SPPP) a gyflwynwyd gerbron Senedd Cymru ar 7 Mehefin, a'r Bil Masnach (Awstralia a Seland Newydd) a gyflwynwyd gerbron Senedd y DU (Tŷ'r Arglwyddi) ar 11 Mai. Caiff y Bil Masnach (Awstralia a Seland Newydd) ei ddiddymu gan y Bil Caffael, felly hefyd y diwygiadau i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a wneir gan y Bil Masnach (Awstralia a Seland Newydd).

11. Mae'r maes caffael yn eithaf cymhleth yn ei ymwneud â chyrff cyhoeddus. Felly, mae’r ddogfen hon yn defnyddio’r cyfeiriadau canlynol er sicrhau eglurder:

    - ‘Awdurdodau Contractio' (ACau) - pob corff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Bil
    - 'Awdurdodau Datganoledig Cymru' (ADCau) - fel y'u diffinnir gan adran 157A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("DLlC")
    - 'Awdurdodau Contractio Cymru' (ACCau) - yr awdurdodau contractio yng Nghymru sy'n ddarostyngedig i'r Bil (cyfeirir atynt fel "devolved Welsh authorities" yn y Bil ei hun) ac y mae'r pwerau a'r dyletswyddau perthnasol a roddwyd i Weinidogion Cymru o dan y Bil yn gymwys iddynt.

**Y diweddaraf ers cyhoeddi’r LCM atodol (Memorandwm Rhif 2) a osodwyd ar 11 Gorffennaf**

12. Gosodais LCM atodol ar 11 Gorffennaf. Mae’n ymwneud â’r 320 o welliannau’r Llywodraeth a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU ar 27 Mehefin. Roedd y rhan fwyaf ohonynt yn gwneud darpariaeth o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

13. Ystyriwyd y gwelliannau hynny yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi a ddechreuodd ar 4 Gorffennaf ac a ddaeth i ben ar 26 Hydref. Cafodd holl

welliannau'r llywodraeth eu cynnig ac fe'i cytunwyd arnynt ar wahân i'r gwelliant i ychwanegu 'cymal 1 newydd' (oedd yn anelu at ddiffinio 'Caffael' a 'Chaffael Sicredig').

14. Cyflwynodd Llywodraeth y DU welliannau pellach i'w hystyried yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi. Dechreuodd y cyfnod hwnnw ar 28 Tachwedd a chyflwynwyd y gwelliannau ar ddau ddyddiad gwahanol (h.y., 15 a 21 Tachwedd).

15. Mae'r gwelliannau hyn a gyflwynwyd yn cynnwys cymal 1 newydd (diffinio 'Caffael' a 'Chaffael Sicredig') a ystyriwyd i ddechrau yn y set gyntaf o welliannau ond ni chafodd ei wneud.

16. Mae'r gwelliannau a gyflwynwyd ar 15 a 21 Tachwedd, i'r graddau y maent yn gwneud darpariaeth sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, yn destun yr LCM atodol hwn. Mae **Atodiad A** yn cynnwys tabl sy'n amlinellu'r newidiadau i rifau cymalau yn dilyn y gwelliannau a wnaed yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi.

17. Cadarnhaodd fy memoranda cydsyniad deddfwriaethol blaenorol, er fy mod yn fodlon dechrau ar y broses cydsyniad deddfwriaethol yn y Senedd, fod nifer o faterion allweddol o bryder yr oedd angen eu datrys cyn y gallwn ystyried argymell cydsyniad. Mae rhai o'r meysydd hyn wedi'u datrys, megis y pŵer datgymhwyso ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd a'r ddyletswydd i ystyried Datganiad Polisi Caffael Cymru (WPPS) a'i orfodi mewn achosion sifil, tra bo'r canlynol heb eu datrys o hyd:

    - Mae'r pŵer i ychwanegu cytundebau rhyngwladol at y rhestr yn Atodlen 9 i'r Bil wedi'i gynnwys fel pŵer cydredol, heb unrhyw ofyniad i geisio cydsyniad Gweinidogion Cymru pan fo Gweinidogion Llywodraeth y DU yn arfer y pŵer hwn mewn perthynas â meysydd datganoledig, sy'n annerbyniol i Weinidogion Cymru. Mae darpariaethau tebyg wedi'u cynnwys yn y Bil Masnach (Awstralia a Seland Newydd). Mae trafodaethau manwl yn parhau ar lefel swyddogol a phan fydd cytundeb, disgwylir y bydd canlyniad y trafodaethau hynny yn cael ei adlewyrchu yn y Bil Caffael.

- Rwy'n ceisio gwelliant i'r diffiniad o ACCau, gyda'r bwriad o sicrhau bod y cymalau'n gweithio'n decach mewn perthynas â rhai caffaeliadau trawsffiniol. Mae fy swyddogion yn cyfarfod yn rheolaidd gyda swyddogion Swyddfa Cabinet y DU i ddatrys y mater hwn. Mae trafodaethau wedi bod yn gadarnhaol, ac rydym yn obeithiol am ganlyniad llwyddiannus.
- Pwerau Cychwyn: Mae'r Bil (fel y'i diwygiwyd yn yr Uwch-bwyllgor yn Nhŷ'r Arglwyddi) yn darparu ar gyfer pwerau Gweinidog y Goron yn unig. Roedd ymrwymiad cychwynnol gan Lywodraeth y DU i Weinidogion Cymru gael pwerau cychwyn yn y Bil. Mae trafodaethau'n parhau rhwng swyddogion ar y pwerau.
- Pwerau i wneud darpariaeth ganlyniadol. Mae'r Bil (fel y'i diwygiwyd yn yr Uwch-bwyllgor yn Nhŷ'r Arglwyddi) yn darparu ar gyfer pwerau cydredol heb unrhyw ofyniad i gael cydsyniad Gweinidogion Cymru pan fo Gweinidogion Llywodraeth y DU yn arfer y pŵer hwn mewn perthynas â meysydd datganoledig. Mae fy swyddogion wedi gofyn i'r pŵer gael ei ddiwygio i bwerau cydredol plws ac mae'r trafodaethau'n parhau.

**Darpariaethau a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU i'w hystyried yng nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi y mae angen cydsyniad ar eu cyfer**

18. Ystyrir bod y gwelliannau a amlinellir ym mharagraffau 19.1 i 19.14, a 20.1 i 20.11 a gyflwynwyd i'r Bil gan Lywodraeth y DU ar 15 a 21 Tachwedd i'w hystyried yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi, at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ac felly maent yn "ddarpariaethau perthnasol" at ddibenion RhS29.

19. **Gwelliannau a gyflwynwyd ar 15 Tachwedd**

19.1. **Diffiniad o gaffael (Cymal 1 Newydd a diwygiadau canlyniadol i gymalau 10, 11, 13, 29, 30, 54, 65, 70, 76, 77, 78, 79, 83, 84, 89, 90, 92, 102, 104, 105, 106 a 115)**

Gwelliant technegol i ddiffinio "caffael" ("*procurement*") a "caffael sicredig" ("*covered procurement*") sy'n achosi llawer o ddiwygiadau canlyniadol yn y Bil. Mae ychwanegu'r diffiniadau hyn yn gwahaniaethu rhwng:

- caffael sicredig sef sylfaen y gyfundrefn lawn yn y Bil; a
- chaffael arall nad yw'n rhan o'r gyfundrefn lawn a nodir yn y Bil ond sy'n dal i ddenu rhai rhwymedigaethau penodol, a allai gynnwys

caffael sydd o dan y trothwy, rhai caffaeliadau cytundeb rhyngwladol a materion eraill.

- Mae'r diwygiadau canlyniadol yn dileu'r diffiniad presennol o “caffael” ("*procurement*"), yn egluro ai caffael mewn cymal penodol yw'r term diffiniedig “caffael” ("*procurement*") neu “gaffael sicredig” ("*covered procurement*"), yn dileu testun sy'n ddiangen oherwydd y diffiniadau newydd, yn disodli “dyfarnu contractau” ("*award of contracts*") gyda'r term diffiniedig (“caffael”) ("*procurement*") ac yn ychwanegu'r termau diffiniedig newydd i'r rhestr o ymadroddion diffiniedig.

19.2. **Diffiniad o awdurdod contractio (Cymal 1)**

Mae'r Bil yn tynnu i mewn yn anghywir rai sefydliadau na ddylent ddod o fewn cwmpas y gyfundrefn gaffael. Mae'r gwelliant yn mireinio'r diffiniad o “awdurdod contractio” ("*contracting authority*") i sicrhau bod sefydliadau perthnasol yn cael eu cynnwys yng nghwmpas y cyrff y dylai'r gyfundrefn gaffael fod yn berthnasol iddynt, neu eu bod yn cael eu heithrio rhag y gyfundrefn honno.

19.3. **Contractau â Chyfleustodau (Cymal 5(2))**

Byddai'r gwelliant hwn yn sicrhau mai dim ond mewn perthynas â'r gweithgareddau cyfleustodau y mae gan y cyfleustodau hawl arbennig neu unigryw ar eu cyfer y bydd cyfleustodau preifat yn awdurdod contractio.

19.4. **TAW a gwerth contractau consesiwn (Cymal 114)**

Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau contractio gynnwys unrhyw TAW sy'n daladwy fel rhan o'r swm sy'n 'daladwy' ar gontractau wrth gyfrifo gwerth contract. Nid yw hyn yn gweithio wrth ystyried contractau consesiwn lle mae'n rhaid cynnwys TAW hefyd ar unrhyw swm 'derbyniadwy' yn ogystal â'r swm sy'n daladwy. Mae contractau consesiwn yn cynnwys yr hawl i elwa ar waith neu wasanaethau a ddarperir ac i dderbyn yr incwm a geir o wneud hynny. Mae'r gwelliant hwn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod yn rhaid cynnwys TAW sy'n daladwy ar symiau o'r fath yn y cyfrifiad prisio.

19.5. **Ymchwiliadau caffael (Cymal 99)**

Mae Cymal 99 yn caniatáu i Weinidogion Cymru gynnal ymchwiliadau i gydymffurfiaeth awdurdodau contractio Cymru â darpariaethau'r Bil a'i gwneud yn ofynnol i awdurdodau contractio Cymru roi sylw i'r canllawiau statudol a ddarperir yn dilyn yr ymchwiliadau hyn. Byddai hyn yn

cymhwyso Comisiwn y Senedd yn rhinwedd ei swydd fel awdurdod contractio. Os byddai Comisiwn y Senedd yn ddarostyngedig i oruchwyliaeth gan Lywodraeth Cymru, byddai hynny'n amhriodol yn gyfansoddiadol ac er mwyn datrys hynny, mae'r gwelliant hwn yn cynnwys Comisiwn y Senedd fel awdurdod contractio nad yw'n ddarostyngedig i ymchwiliadau caffael.

## 19.6. **Rhesymau dros atal yn ymwneud ag ansolfedd a methdaliad (Atodlen 7)**

Mae'r gwelliant hwn yn symleiddio'r rhesymau dros atal ar gyfer cyflenwyr sy'n ansolfent neu'n fethdalwyr. Wrth gael ei adolygu, daeth i'r amlwg bod y rheswm yn ymwneud â chyflenwyr nad ydynt yn gallu talu eu dyledion yn ddiangen ac na fyddai'n gweithio'n effeithiol i gyflenwyr tramor a rhai endidau nad ydynt yn gwmnïau. Mae'r rhesymau eraill dros atal ar gyfer cyflenwyr sydd mewn sefyllfaoedd ansolfedd yn ddigonol i ymdrin â'r risg yn y maes hwn.

## 19.7. **Gwelliannau i Atodlenni 6 a 7 i'r Bil**

Atodlen 6 – Byddai gwelliant i baragraff 4 yn sicrhau bod troseddau cyfraith gyffredin perthnasol ychwanegol yr Alban wedi'u cynnwys yn y rheswm dros atal gorfodol ym mharagraff 4. Gwelliannau i sicrhau eglurder bod y drosedd o ddwyn yn dod o dan y rheswm dros atal gorfodol ym mharagraffau 6 a 7 a gwelliant i sicrhau bod y rheswm dros atal gorfodol newydd sy'n cael ei fewnosod yn y Pwyllgor (*conspiracy to defraud*) yn cael ei adlewyrchu ym mharagraff 43(3).

Atodlen 7 – Byddai'r diwygiadau hyn yn sicrhau bod y rheswm dros atal yn ôl disgresiwn ym mharagraff 13(4) (*publishing of adverse information*) yn cael ei adlewyrchu ym mharagraff 16(3) a (4), i'r graddau y mae'r rheswm dros atal hwnnw'n cael ei sbarduno drwy gyhoeddi gwybodaeth mewn perthynas â chyflenwr yn torri contract.

## 19.8. **Gwybodaeth ddigonol i baratoi tendrau (Cymal 20)**

Mae'r gwelliant hwn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau contractio ddarparu gwybodaeth ddigonol (yn yr hysbysiad tendro neu'r dogfennau tendro cysylltiedig) er mwyn galluogi cyflenwyr i baratoi tendrau, rhaid darparu hyn cyn i'r cyfnod tendro ddechrau. Mae hyn yn cau bwlch posib a allai ganiatáu i'r cyfnod tendro ddechrau heb i'r wybodaeth hon gael ei darparu.

## 19.9. **Diffiniad o sefydliad addysgol (Cymalau 63, 64, 65, 68, 79(2)(a), 114, 115)**

Dylai ysgolion a gynhelir, academïau, colegau chweched dosbarth a sefydliadau addysgol eraill gael eu heithrio o'r rheolau yn y Bil sy'n ymwneud â chontractau sydd o dan y trothwy. Fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, nid yw'r Bil yn cyflawni hyn gan nad yw'n nodi'n gywir yr holl fathau o awdurdodau contractio sydd i'w heithrio. Mae'r gwelliannau hyn yn sicrhau nad yw'r cyrff hyn yn wynebu beichiau gweinyddol anghymesur.

19.10. **Trothwyon ar gyfer fframweithiau (Atodlen 1)**

Mae'r gwelliant hwn yn sicrhau bod cyfeiriadau yn y trothwyon ariannol a gyflwynwyd yn Atodlen 1 o'r Bil yn cynnwys cyfeiriadau at fframweithiau ar gyfer dyfarnu contractau ar gyfer nwyddau, gwasanaethau neu waith yn y dyfodol.

19.11. **Contractau Esempt (Atodlen 2)**

Bydd y newidiadau a wnaed i baragraff 1 o Atodlen 2 yn golygu y bydd y paragraff diwygiedig 1(1) yn darllen: "A contract is an exempted contract if it is (a) a contract of a kind listed in this Schedule, or (b) a framework for the future award of contracts only of a kind listed in this Schedule". Effaith y gwelliant hwn fydd sicrhau bod fframwaith ar gyfer dyfarnu contractau yn y dyfodol dim ond o fath a restrir yn Atodlen 2 hefyd yn gontract esempt.

19.12. **Caffael Cymysg (Cymal 9)**

Mae'r gwelliannau hyn yn rhoi eglurder cyfreithiol ar y rhwymedigaethau cymwys mewn sefyllfaoedd lle mae caffael cymysg yn cynnwys dwy elfen neu fwy a gwmpesir gan y "cyfundrefnau arbennig" sy'n gymwys i gontractau consesiwn, contractau amddiffyn, contractau llai manwl a chontractau â chyfleustodau. Fel y'i drafftiwyd ar hyn o bryd, mae cymal 9 ond yn rhagweld y posibilrwydd o gontractau cyfundrefn gymysg sy'n cynnwys elfen a gwmpesir gan y gyfundrefn lawn ac elfen a gwmpesir gan y gyfundrefn arbennig. Er ein bod yn disgwyl i'r achlysuron lle bydd contractau cymysg sy'n cynnwys nifer o elfennau cyfundrefn arbennig i fod yn brin, mae diffyg eglurder cyfreithiol yn annymunol, ac o bosibl yn anghydnaws â'n rhwymedigaethau cytundebau rhyngwladol, felly mae'r gwelliant hwn yn datrys hynny.

19.13. **Marchnadoedd deinamig: sefydlu (Cymal 34)**

Byddai'r gwelliant hwn yn sicrhau nad yw dogfennau sy'n sefydlu neu'n addasu marchnad ddeinamig yn ddarostyngedig i unrhyw ofynion sy'n gymwys i gontractau o dan y Bil, p'un a yw'r contractau hynny'n gontractau cyhoeddus fel y'u diffinnir yng nghymal 2 ai peidio.

### 19.14. **Trafnidiaeth (Atodlen 4, paragraff 4)**

Byddai'r gwelliant hwn yn egluro bod rhwydweithiau sydd i'w rhoi ar gael i'r cyhoedd yn dod o fewn y gweithgaredd cyfleustodau hwn. Nid yw rhwydwaith yn cael ei ddiffinio bellach. Fel y'i drafftiwyd ar hyn o bryd, nid yw'r disgrifiad o wasanaethau trafnidiaeth cyfleustodau yn y Bil (h.y., rheilffordd, tram, bws, neu ddulliau eraill) yn cwmpasu'r holl ddarparwyr trafnidiaeth cyfleustodau yn llawn, sy'n golygu y gallant mewn rhai achosion fod yn destun darpariaethau prif ffrwd fwy beichus yn y Bil wrth gyflawni gweithgareddau trafnidiaeth cyfleustodau, yn hytrach na'r darpariaethau cyfleustodau mwy hyblyg. Mae'r gwelliant hwn i baragraff 4 o Atodlen 4 i'r Bil, felly, yn egluro'r cwmpas i sicrhau bod ganddynt y darpariaethau hyblyg a fwriedir.

## 20. Gwelliannau a gyflwynwyd ar 21 Tachwedd

### 20.1. **Ystyried 'busnesau bach a chanolig' (BBaChau) (Cymalau 11 a 92)**

Nid yw'r Bil, fel y'i drafftiwyd, yn gofyn yn benodol i awdurdodau contractio ystyried BBaChau yn y broses gaffael. Byddai'r gwelliant i gymal 11 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod contractio, wrth gynnal caffael sicredig, roi sylw i'r rhwystrau penodol i gymryd rhan mewn caffael cyhoeddus y gallai busnesau bach a chanolig eu cael, ac a ellir eu dileu neu eu lleihau. Gwneir diwygiad canlyniadol hefyd i gymal 92 a fyddai'n golygu nad yw'r ddyletswydd i roi sylw i rwystrau sy'n wynebu BBaChau sy'n cael eu mewnosod gan y gwelliant i Gymal 11 yn orfodadwy o dan Ran 9.

### 20.2. **Diffiniad o BBaChau a'r pŵer i ddiwygio'r diffiniad hwn (Cymalau 113 a 114)**

Bydd gwelliannau i gymal 114 (dehongli) yn ychwanegu diffiniad o "fusnesau bach a chanolig" (BBaChau) ("*small and medium sized enterprises*") ac yn rhoi pŵer i "awdurdod priodol" i wneud rheoliadau sy'n newid y diffiniad, gan gynnwys y pŵer i ddiwygio'r cymal hwn. Golyga hyn y bydd gan Weinidogion Cymru bwerau cyfatebol i wneud rheoliadau yn newid y diffiniad i'r graddau y mae'n gymwys i ddyletswyddau awdurdodau contractio Cymru o dan gymal 11 diwygiedig a'r cymal newydd ar ôl cymal 80 (gweler isod).

Bydd gwelliant i gymal 113 (rheoliadau) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau o'r fath yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol yn y Senedd.

### 20.3. Contractau rheoleiddiedig o dan y trothwy: dyletswydd i ystyried busnesau bach a chanolig (Cymal newydd ar ôl cymal 80)

Byddai'r cymal newydd hwn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod contractio, cyn gwahodd cyflwyno tendrau ar gyfer contract rheoleiddiedig o dan y trothwy (ac eithrio o dan fframwaith), i roi sylw i'r rhwystrau penodol i gystadlu am gontract y gallai BBaChau eu cael a'u dileu neu eu lleihau lle bo modd. Gwneir diwygiad canlyniadol i gymal 100(3) a fyddai'n golygu na fydd y ddyletswydd yn y cymal newydd yn destun “argymhelliad adran 100”, sef argymhellion yn dilyn ymchwiliad caffael.

### 20.4. Ni chaiff caffaelwyr wneud cyfrifon wedi'u harchwilio yn ofynnol gan gynigwyr ac eithrio lle maent yn ofynnol eisoes o dan y Ddeddf Cwmnïau (Cymalau 21, 35 a 43)

Mae'r gwelliannau hyn yn dileu rhwystr gweinyddol i BBaChau newydd sy'n cymryd rhan mewn caffaeliadau drwy sicrhau bod awdurdodau contractio ond yn gallu gofyn am gyfrifon wedi'u harchwilio i brofi statws ariannol os yw'n ofynnol eisoes i fusnesau eu darparu o dan Ddeddf Cwmnïau 2006. Bydd hyn yn gymwys mewn caffaeliadau, sefydlu marchnadoedd deinamig a dyfarnu contractau o dan fframweithiau (ac mae wedi golygu bod angen gwelliant technegol i rannu cymal 43 yn ddau gymal).

### 20.5. Ni chaiff caffaelwyr ei wneud yn ofynnol i yswiriant sy'n ymwneud â pherfformiad y contract fod ar waith cyn dyfarnu (Cymalau 21, 35 a 43)

Byddai'r gwelliannau hyn yn osgoi costau a allai fod yn ofer i BBaChau, drwy ei wneud yn glir na chaiff awdurdodau contractio ei wneud yn ofynnol i lefelau yswiriant sy’n ymwneud â pherfformiad y contract fod ar waith cyn dyfarnu. Byddant yn gallu derbyn cadarnhad gan gyflenwyr y bydd y lefelau yswiriant gofynnol mewn lle os ydynt yn llwyddiannus. Bydd hyn yn gymwys mewn caffaeliadau, sefydlu marchnadoedd deinamig a dyfarnu contractau o dan fframweithiau (ac mae wedi golygu bod angen gwelliant technegol i rannu cymal 43 yn ddau gymal).

### 20.6. Trothwyon – Dangosyddion perfformiad allweddol (Cymal 49)

Cyn ymrwymo i gontract cyhoeddus sy'n werth mwy na £2 filiwn, rhaid i awdurdod contractio osod a chyhoeddi o leiaf dri dangosydd perfformiad allweddol mewn perthynas â'r contract. Mae'r gwelliant hwn yn codi'r

trothwy o £2 filiwn i £5 miliwn, a thrwy hynny yn lleihau'r baich gweinyddol ar awdurdodau contractio wrth gyhoeddi'r data ac ar gyflenwyr wrth gytuno ar y data i'w gyhoeddi.

20.7. **Gwelliannau sy'n ymwneud â chyfleustodau:**

- **Cyfnod segur ar gyfer dyfarniadau uniongyrchol (Cymal 48).**

Bydd y gwelliant hwn yn dileu'r gofyniad am gyfnod segur gorfodol mewn perthynas â chontractau a ddyfernir o dan gymal 39 neu 41 (dyfarnu uniongyrchol a newid i ddyfarnu uniongyrchol) gan gyfleustod preifat, sy'n golygu na fyddai'n rhaid i gyfleustod preifat aros tan i gyfnod segur ddod i ben cyn dyfarnu contract yn uniongyrchol.

Gellir defnyddio cyfnod segur gwirfoddol o hyd i ddiogelu'r caffael rhag hawliadau ôl-gontractiol, ond mewn rhai amgylchiadau gall y risg o oedi'r contract drwy gael cyfnod segur fod yn fwy ac mae'r gwelliant hwn yn caniatáu i gyfleustodau preifat wneud penderfyniad sy'n seiliedig ar risg.

- **Hysbysiadau marchnad ddeinamig cyfleustodau cymwys: dim dyletswydd i gyhoeddi hysbysiad tendro (cymal newydd ar ôl Cymal 38)**

Byddai'r gwelliant hwn yn dileu baich sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyfleustodau gyhoeddi hysbysiadau tendro ar gyfer caffaeliadau unigol sy'n cael eu rhedeg o dan farchnadoedd deinamig cyfleustodau. Pan fydd yr hysbysiad sy'n hysbysebu'r farchnad ddeinamig cyfleustodau yn bodloni meini prawf penodol, dim ond i gyflenwyr sydd ar y farchnad ddeinamig (neu ran briodol ohoni) y bydd yn ofynnol i hysbysiadau tendro gael eu darparu iddynt.

20.8. **Gwrthdaro Buddiannau – gwelliant bach i eiriad (Cymal 78 (4))**

Mae cymal 78(4) fel y'i diwygiwyd yn y Pwyllgor yn bodoli i helpu awdurdodau contractio i ystyried rhagfarn ymddangosiadol gan fod hyn a rhagfarn wirioneddol yn bodoli fel sail bosibl ar gyfer adolygiad barnwrol. Mae'r gwelliant hwn yn cynnal pwysigrwydd ystyried y canfyddiad o eraill mewn perthynas â gwrthdaro. Fodd bynnag, mae'n osgoi bod awdurdodau yn gorfod mynd i'r afael â'r holl amgylchiadau y maent yn ymwybodol ohonynt y “gallai” person rhesymol ei ystyried yn wrthdaro. Yn hytrach, dim ond mynd i'r afael â'r amgylchiadau y mae'r awdurdod yn eu hystyried sy'n “debygol” o achosi i berson rhesymol ystyried bod gwrthdaro y mae angen iddynt ei wneud.

20.9. **Gwelliannau mewn ymateb i'r Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio (DPRRC):**

- **Pwerau trothwy ariannol – gweithdrefn gadarnhaol ar gyfer y rheoliadau a wnaed o dan Gymalau 50, 65, 70, 81, ac 86)**

Gwrthwynebodd y DPRRC ddefnyddio'r weithdrefn negyddol i ddiwygio trothwyon mewn chwe chymal (51, 65, 70, 78, 79 ac 84 o'r Bil fel y'i cyflwynwyd – cymalau 50, 65, 70, 80, 81 ac 86 bellach) i weithredu cynnydd uwch na chwyddiant. Mae'r gwelliannau hyn yn sicrhau bod y weithdrefn gadarnhaol yn cael ei defnyddio bob tro yn hytrach na dim ond pan fo rheoliadau'n gwneud cynnydd uwch na chwyddiant i drothwyon.

Nid yw'r gwelliannau yn newid y weithdrefn a gymhwysir i reoliadau o dan gymal 80 (yn y Bil fel y'i diwygiwyd yn y Pwyllgor), gan fod y cymal hwn yn ymwneud â throthwyon GPA, ac mae cynnal y sefyllfa yn gyson â'r dull a gymerwyd i drothwyon GPA mewn mannau eraill yn y Bil.

- **Esemptiad ar gyfer gweithgareddau cyfleustodau sy'n agored i gystadleuaeth (Cymalau 5 a 113, atodlenni 4 ac 11)**

Yn dilyn pryder gan y DPRRC, mae'r gwelliant hwn yn dileu'r pŵer ym mharagraff 7 o Atodlen 4 i wneud rheoliadau i benderfynu sut y mae penderfyniad esemptio i'w wneud i esemptio gweithgareddau cyfleustodau sy'n agored i gystadleuaeth. Mae hyn yn cael ei ddisodli gan weithdrefn fwy tryloyw pan fo'r pŵer yn hytrach ar gyfer awdurdod priodol i esemptio gweithgareddau cyfleustodau o'r fath drwy is-ddeddfwriaeth yn unig, gan ddefnyddio'r weithdrefn gadarnhaol. Bydd y prawf i'w fodloni ynghylch a oes modd esemptio gweithgareddau cyfleustodau yn parhau fel y nodir yn wreiddiol ym mharagraff 7(2) o Atodlen 4 (nodir y prawf hwn bellach yng nghymal 5); hynny yw, mae'n rhaid cael cystadleuaeth deg ac effeithiol yn y farchnad gyfleustodau berthnasol ac mae'n rhaid i fynediad i'r farchnad honno fod yn anghyfyngedig.

Bellach, mae Atodlen 4 wedi'i rhannu'n ddwy ran; mae rhan 1 yn diffinio gweithgareddau cyfleustodau a fydd yn ddarostyngedig i'r Bil, ac mae rhan 2 yn nodi gweithgareddau nad ydynt yn weithgareddau cyfleustodau ac felly wedi'u hesemptio o'r Bil. Mae'r rhain yn adlewyrchu'r esemptiadau a gynhwyswyd yn flaenorol ym mharagraff 8 o atodlen 4, sydd bellach wedi'i ddileu.

Mae cymal 5 yn rhoi pŵer i "awdurdod priodol" wneud rheoliad sy'n diwygio Rhan 2. Mae hyn yn golygu bod gan Weinidogion Cymru bŵer cyfatebol i wneud rheoliadau. Mae diwygiadau canlyniadol i gymal 113 i ddarparu bod y weithdrefn gadarnhaol yn berthnasol i wneud rheoliadau o dan gymal 5.

Mae gwelliannau hefyd i Atodlen 11 (diddymiadau a dirymiadau) a fyddai'n sicrhau nad yw Penderfyniadau'r Comisiwn mewn perthynas ag esemptiadau presennol yn cael eu diddymu, gan fod angen eu cadw ar gyfer awdurdodau datganoledig yr Alban.

Mae paragraff newydd wedi'i ychwanegu at Atodlen 2 (32A) a fyddai'n sicrhau bod esemptiadau i gwmpas contractau cyfleustodau o dan Ran 2 o Atodlen 4 yn gymwys i esemptio'r contractau hynny o'r Bil pan fo awdurdodau cyhoeddus yn ymrwymo iddynt.

**• Pŵer i esemptio gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus i deithwyr (Atodlen 2, paragraff 17)**

Ar hyn o bryd, mae'r Bil yn cynnwys pŵer i esemptio “gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus i deithwyr” (“*public passenger transport services*”) o fath i'w nodi mewn rheoliadau. Gwrthwynebodd y DPRRC y pŵer hwn a’i gwneud yn ofynnol i'r Llywodraeth ei gyfiawnhau yn llawn neu ei ddiwygio i gynnwys meini prawf manwl i'w defnyddio wrth benderfynu ar unrhyw esemptiad. Mae'r gwelliant hwn yn dileu'r pŵer yn gyfan gwbl ac yn ei gwneud yn glir yn y Bil y gwasanaethau i'w hesemptio drwy gyfeirio at yr ystyr a roddir gan adran 136(11) o Ddeddf Rheilffyrdd 1993.

**• Pŵer i esemptio contractau consesiwn ar gyfer gwasanaethau awyr (Atodlen 2, paragraff 34)**

Ar hyn o bryd, mae'r Bil yn cynnwys pŵer i esemptio contractau consesiwn ar gyfer gwasanaethau awyr a ddarperir gan “gludydd awyr cymwys” (“*qualifying air carrier*”) i'w nodi mewn rheoliadau. Gwrthwynebodd y DPRRC y pŵer hwn a’i gwneud yn ofynnol i'r Llywodraeth ei gyfiawnhau yn llawn neu ei ddiwygio. Mae'r gwelliant hwn yn disgrifio'r esemptiad yn gliriach heb yr angen am reoliadau.

20.10. **Tryloywder - dyletswydd ar Weinidog Swyddfa'r Cabinet i ddarparu platfform digidol canolog hygyrch i bawb (Cymal 88)**

Er mwyn gwella tryloywder ymhellach ym maes caffael cyhoeddus, mae'r gwelliant hwn yn creu dyletswydd ar y Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet i ddarparu platfform digidol, canolog, hygyrch i bawb.

20.11. **Gwybodaeth sy'n ymwneud â chaffael** (**Cymal 90)**

Byddai'r gwelliant hwn yn cael gwared ar bŵer diangen i sefydlu a gweithredu system ar-lein, oherwydd y gellir ei wneud gan ddefnyddio pwerau cyfraith gyffredin.

**Rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn dros Gymru yn y Bil Caffael**

21. Gan fod y gwelliannau y manylir arnynt yn y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol hwn yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y

Senedd, ac mae pob un yn ymwneud â'r darpariaethau a nodir yn y memoranda cydsyniad deddfwriaethol blaenorol, mae'r rhesymeg dros wneud y darpariaethau hyn yn y Bil yn parhau i fod yn gymwys.

**Goblygiadau ariannol**

22. Nodais y goblygiadau ariannol posibl sy'n gysylltiedig â diwygio caffael cyhoeddus yng Nghymru sy'n debygol o gael eu hysgwyddo gan Lywodraeth Cymru a'r Sector Cyhoeddus ehangach yng Nghymru yn fy memorandwm cydsyniad deddfwriaethol gwreiddiol a osodwyd ar 9 Mehefin.

23. Ni fydd y gwelliannau arfaethedig yn gosod unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol ar Lywodraeth Cymru na'r Sector Cyhoeddus ehangach yng Nghymru.

**Casgliad**

24. Yn fy marn i, mae'n briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn ar gyfer y DU, gan mai'r Bil yw'r ffordd fwyaf effeithiol o ddod â'r darpariaethau hyn i rym. Mae fy swyddogion wedi gweithio'n agos gyda swyddogion yn Swyddfa'r Cabinet i sicrhau bod amcanion polisi Llywodraeth Cymru wedi'u cynnwys, ac rwyf o'r farn y byddai'r darpariaethau hyn yn darparu cyfundrefn gaffael symlach a thryloyw yng Nghymru.

25. Er fy mod o'r farn bod y gwelliannau arfaethedig yn rhesymol, yn yr ystyr yr ymddangosant eu bod yn gwneud gwelliannau i'r Bil, fel y'i cyflwynwyd, ac nad ydynt yn arwain at unrhyw feysydd newydd sy'n peri pryder i mi, rwyf hefyd o'r farn nad yw'n briodol argymell cydsyniad nes bod y materion sydd heb eu datrys sy'n destun pryder, fel yr amlinellir ym mharagraff 17, wedi cael eu datrys. Bydd fy swyddogion yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU i ddatrys y materion hyn.

**Rebecca Evans AS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**6 Rhagfyr 2022**

**Atodiad A – Tabl sy'n cymharu fersiynau'r Bil Caffael**

Y Bil fel y'i cyflwynwyd i Dŷ'r Arglwyddi ar 11 Mai 2022:
https://bills.parliament.uk/publications/46439/documents/1777

Y Bil fel y'i diwygiwyd yn Uwch-bwyllgor Tŷ'r Arglwyddi ar 26 Hydref 2022:
https://bills.parliament.uk/publications/48269/documents/2396

| Rhif y cymal wrth ei gyflwyno | Disgrifiad o'r cymal | Y cymal fel y'i diwygiwyd yn yr Uwch-bwyllgor |
|---|---|---|
| | *RHAN 1*<br>*DIFFINIADAU ALLWEDDOL* | |
| 1 | Awdurdodau contractio | 1 |
| 2 | Contractau cyhoeddus | 2 |
| 3 | Prisio contractau | 3 |
| 4 | Caffael cymysg: dros y trothwy ac o dan y trothwy | 4 |
| 5 | Contractau â chyfleustodau | 5 |
| 6 | Contractau amddiffyn a diogelwch | 6 |
| 7 | Contractau consesiwn | 7 |
| 8 | Contractau llai manwl | 8 |
| 9 | Caffael cymysg: contractau cyfundrefn arbennig | 9 |
| | *RHAN 2*<br>*EGWYDDORION AC AMCANION* | |
| 10 | Caffael yn unol â'r Ddeddf hon yn unig | 10 |
| 11 | Amcanion caffael | 11 |
| 12 | Y datganiad polisi caffael cenedlaethol | 12 |
| 13 | Datganiad polisi caffael Cymru | 13 |
| | RHAN *3*<br>*DYFARNU CONTRACTAU CYHOEDDUS A GWEITHDREFNAU* | |
| | ***PENNOD 1***<br>*CAMAU CYCHWYNNOL* | |
| 14 | Hysbysiadau caffael wedi'u cynllunio | 14 |
| 15 | Ymgysylltu cychwynnol â'r farchnad | 15 |
| 16 | Hysbysiadau ymgysylltu cychwynnol â'r farchnad | 16 |
| 17 | Dyletswydd i ystyried lotiau | 17 |
| | ***PENNOD 2 DYFARNU CYSTADLEUOL*** | |
| | *Telerau caffael* | |
| 18 | Dyfarnu contractau cyhoeddus yn dilyn gweithdrefn gystadleuol<br>***Teitl cymal diwygiedig:*** *Dyfarnu contractau cyhoeddus yn dilyn gweithdrefn dendro gystadleuol* | 18 |
| 19 | Gweithdrefnau tendro cystadleuol | 19 |

| Rhif y cymal wrth ei gyflwyno | Disgrifiad o'r cymal | Y cymal fel y'i diwygiwyd yn yr Uwch-bwyllgor |
|---|---|---|
| 20 | Hysbysiadau tendro a dogfennau tendro cysylltiedig | 20 |
| 21 | Amodau cyfranogiad | 21 |
| 22 | Meini prawf dyfarnu | 22 |
| 23 | Mireinio meini prawf dyfarnu | 23 |
| 24 | Manylebau technegol<br>***Cymal diwygiedig:** Mae'r cymal hwn wedi'i symud i **Bennod 6 'Darpariaeth gyffredinol ynghylch dyfarnu a gweithdrefnau'**, o dan is-adran newydd "Manylebau technegol"* | *53* |
| 25 | Manylebau is-gontractio | 24 |
| | *Atal ac addasiadau* | |
| 26 | Atal cyflenwyr rhag dyfarniad cystadleuol | 25 |
| 27 | Atal cyflenwyr rhag gweithdrefn dendro gystadleuol<br>***Teitl cymal diwygiedig:** Atal cyflenwyr rhag gweithdrefn hyblyg gystadleuol* | 26 |
| 28 | Atal cyflenwyr drwy gyfeirio at is-gontractwyr | 27 |
| 29 | Atal cyflenwr sy'n fygythiad i ddiogelwch cenedlaethol | 28 |
| 30 | Atal cyflenwyr am ymddygiad amhriodol | 29 |
| 31 | Addasu caffael adran 18 | 30 |
| | *Neilltuo contractau i gyflenwyr penodol* | |
| 32 | Neilltuo contractau i ddarparwyr cyflogaeth gefnogol | 31 |
| 33 | Neilltuo contractau i gwmnïau cydfuddiannol y sector cyhoeddus | 32 |
| | *Dyfarnu contractau drwy gyfeirio at farchnadoedd deinamig* | |
| 34 | Dyfarnu cystadleuol drwy gyfeirio at farchnadoedd deinamig | 33 |
| 35 | Marchnadoedd deinamig: sefydlu | 34 |
| 36 | Marchnadoedd deinamig: aelodaeth | 35 |
| 37 | Marchnadoedd deinamig: tynnu aelodau o'r farchnad | 36 |
| 38 | Marchnadoedd deinamig: ffioedd | 37 |
| 39 | Hysbysiadau marchnadoedd deinamig | 38 |
| | ***PENNOD 3<br>DYFARNU UNIONGYRCHOL*** | |
| 40 | Dyfarnu uniongyrchol mewn achosion arbennig | 39 |

| **Rhif y cymal wrth ei gyflwyno** | **Disgrifiad o'r cymal** | **Y cymal fel y'i diwygiwyd yn yr Uwch-bwyllgor** |
|---|---|---|
| 41 | Dyfarnu uniongyrchol i ddiogelu bywyd, etc | 40 |
| 42 | Newid i ddyfarnu uniongyrchol | 41 |
| 43 | Hysbysiadau tryloywder | 42 |
| ***PENNOD 4*** ***DYFARNU O DAN FFRAMWEITHIAU*** | | |
| 44 | Fframweithiau | 43 |
| 45 | Fframweithiau:  uchafswm cyfnod | 44 |
| 46 | Fframweithiau: telerau ymhlyg | 45 |
| 47 | Fframweithiau agored | 46 |
| ***PENNOD 5*** ***AR ÔL DYFARNU, CYFNODAU SEGUR A HYSBYSIADAU*** | | |
| 48 | Hysbysiadau dyfarnu contract a chrynodebau asesu | 47 |
| 49 | Cyfnodau segur ar ôl dyfarnu contractau | 48 |
| 50 | Dangosyddion perfformiad allweddol | 49 |
| 51 | Hysbysiadau manylion contract a chyhoeddi contractau | 50 |
| ***PENNOD 6*** ***DARPARIAETH GYFFREDINOL YNGHYLCH DYFARNU A GWEITHDREFNAU*** | | |
| *Terfynau amser a therfynu* | | |
| 52 | Terfynau amser | 51 |
| 53 | Hysbysiadau terfynu caffael | 52 |
| *Manylebau Technegol* | | |
| 24 | *Manylebau Technegol* ***Cymal diwygiedig:*** *Mae'r cymal hwn wedi'i symud i* ***Bennod 6 'Darpariaeth gyffredinol ynghylch dyfarnu a gweithdrefnau'****, o dan is-adran newydd "Manylebau technegol"* | 53 |
| *Atal cyflenwyr* | | |
| 54 | Ystyr cyflenwr wedi'i atal a chyflenwr y gellir ei atal | 54 |
| 55 | Ystyried a yw cyflenwr wedi'i atal neu y gellir ei atal | 55 |
| *Gwahardd* | | |
| 56 | Hysbysiad atal cyflenwr | 56 |
| 57 | Ymchwiliadau i'r cyflenwr: rhesymau dros atal | 57 |
| 58 | Ymchwiliadau o dan adran 57: adroddiadau | 58 |

| Rhif y cymal wrth ei gyflwyno | Disgrifiad o'r cymal | Y cymal fel y'i diwygiwyd yn yr Uwch-bwyllgor |
|---|---|---|
| 59 | Rhestr wahardd | 59 |
| 60 | Rhestr wahardd: cais i ddileu | 60 |
| 61 | Penderfyniadau gwahardd: apeliadau | 61 |
| | *RHAN 4*<br>*RHEOLI CONTRACTAU CYHOEDDUS* | |
| | *Telerau ymhlyg mewn contractau cyhoeddus* | |
| 62 | Anfonebu electronig: teler ymhlyg | 62 |
| 63 | Telerau talu ymhlyg mewn contractau cyhoeddus | 63 |
| | *Hysbysiadau am daliadau a pherfformiad* | |
| 64 | Hysbysiadau cydymffurfio â'r gofynion talu | 64 |
| 65 | Gwybodaeth am daliadau dan gontractau cyhoeddus | 65 |
| 66 | Asesu perfformiad contract | 66 |
| | *Is-gontractio* | |
| 67 | Is-gontractio: cyfarwyddydau | 67 |
| 68 | Telerau talu ymhlyg mewn is-gontractau | 68 |
| | *Addasu contractau cyhoeddus* | |
| 69 | Addasu contract cyhoeddus | 69 |
| 70 | Hysbysiadau newid contract a chyhoeddi addasiadau<br>***Teitl cymal diwygiedig:*** *Hysbysiadau newid contract* | 70 |
| 71 | Cyfnod segur gwirfoddol wrth addasu contractau | 71 |
| Amherthnasol | ***Cymal newydd yn y Bil Diwygiedig:*** *Cyhoeddi addasiadau* | *72* |
| | *Terfynu contractau cyhoeddus* | |
| 72 | Hawl ymhlyg i derfynu contractau cyhoeddus | 73 |
| Amherthnasol | ***Cymal newydd yn y Bil Diwygiedig:*** *Terfynu contractau cyhoeddus: diogelwch cenedlaethol* | *74* |
| 73 | Hysbysiadau terfynu contract | 75 |
| | *RHAN 5*<br>*GWRTHDARO BUDDIANNAU* | |

| Rhif y cymal wrth ei gyflwyno | Disgrifiad o'r cymal | Y cymal fel y'i diwygiwyd yn yr Uwch-bwyllgor |
|---|---|---|
| 74 | Gwrthdaro buddiannau: dyletswydd i nodi | 76 |
| 75 | Gwrthdaro buddiannau: dyletswydd i liniaru | 77 |
| 76 | Asesiadau gwrthdaro | 78 |
| | *RHAN 6*<br>*CONTRACTAU O DAN Y TROTHWY* | |
| 77 | Contractau rheoleiddiedig o dan y trothwy | 79 |
| 78 | Contractau rheoleiddiedig o dan y trothwy: gweithdrefn | 80 |
| 79 | Contractau rheoleiddiedig o dan y trothwy: hysbysiadau | 81 |
| 80 | Contractau rheoleiddiedig o dan y trothwy: telerau talu ymhlyg | 82 |
| | *RHAN 7*<br>*CADW AT YMRWYMIADAU RHYNGWLADOL* | |
| 81 | Cyflenwyr gwladwriaeth cytuniad | 83 |
| 82 | Cyflenwyr gwladwriaeth cytuniad: dim gwahaniaethu | 84 |
| 83 | Cyflenwyr gwladwriaeth cytuniad: dim gwahaniaethu yn yr Alban | 85 |
| | *RHAN 8*<br>*GWYBODAETH A HYSBYSIADAU: DARPARIAETH GYFFREDINOL* | |
| 84 | Hysbysiadau piblinell | 86 |
| 85 | Esemptiadau cyffredinol o ddyletswyddau i gyhoeddi neu ddatgelu gwybodaeth | 87 |
| 86 | Hysbysiadau, dogfennau a gwybodaeth: rheoliadau | 88 |
| 87 | Cyfathrebu electronig | 89 |
| 88 | Gwybodaeth yn ymwneud â chaffael | 90 |
| Amherthnasol | ***Cymal newydd yn y Bil Diwygiedig:*** *Diogelu data* | *91* |
| | *RHAN 9*<br>*RHWYMEDÏAU AM DORRI DYLETSWYDD STATUDOL* | |
| 89 | Dyletswyddau o dan y Ddeddf hon sy'n orfodadwy mewn achosion sifil | 92 |
| 90 | Atal yn awtomatig ymrwymo i gontractau neu eu haddasu | 93 |
| 91 | Rhwymedïau interim | 94 |
| 92 | Rhwymedïau cyn-gontractiol | 95 |

| Rhif y cymal wrth ei gyflwyno | Disgrifiad o'r cymal | Y cymal fel y'i diwygiwyd yn yr Uwch-bwyllgor |
|---|---|---|
| 93 | Rhwymedïau ôl-gontractiol | 96 |
| 94 | Rhwymedïau ôl-gontractiol: amodau neilltuo | 97 |
| 95 | Terfynau amser ar hawliadau | 98 |
| *RHAN 10*<br>*GORUCHWYLIO CAFFAEL* | | |
| 96 | Ymchwiliadau caffael | 99 |
| 97 | Argymhellion yn dilyn ymchwiliadau caffael | 100 |
| 98 | Canllawiau yn dilyn ymchwiliadau caffael | 101 |
| *RHAN 11*<br>*AWDURDODAU PRIODOL A CHAFFAEL TRAWSFFINIOL* | | |
| 99 | Gweinidogion Cymru: cyfyngiadau ar arfer pwerau | 102 |
| 100 | Adran Gogledd Iwerddon: cyfyngiadau ar arfer pwerau | 103 |
| 101 | Gweinidog y Goron: cyfyngiadau ar arfer pwerau | 104 |
| 102 | Diffiniadau yn ymwneud â threfniadau caffael | 105 |
| 103 | Pwerau yn ymwneud â threfniadau caffael | 106 |
| *RHAN 12*<br>*DIWYGIO A DIDDYMU* | | |
| 104 | Datgymhwyso dyletswydd yn adran 17 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1988 | 107 |
| 105 | Contractau amddiffyn un ffynhonnell | 108 |
| 106 | Pwerau cydredol a Deddf Llywodraeth Cymru 2006 | 109 |
| 107 | Diddymiadau etc | 110 |
| *RHAN 13*<br>*CYFFREDINOL* | | |
| 108 | Pŵer i ddatgymhwyso'r Ddeddf hon mewn perthynas â chaffael gan GIG yn Lloegr | 111 |
| 109 | Pŵer i ddiwygio'r Ddeddf hon mewn perthynas â chyfleustodau preifat | 112 |
| 110 | Rheoliadau | 113 |
| 111 | Dehongli | 114 |
| 112 | Mynegai ymadroddion diffiniedig | 115 |

| Rhif y cymal wrth ei gyflwyno | Disgrifiad o'r cymal | Y cymal fel y'i diwygiwyd yn yr Uwch-bwyllgor |
|---|---|---|
| 113 | Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol, etc | 116 |
| 114 | Rhychwant | 117 |
| 115 | Cychwyn | 118 |
| 116 | Teitl byr | 119 |
| **YR ATODLENNI** | | |
| Atodlen 1 | Symiau trothwy | Atodlen 1 |
| Atodlen 2 | Contractau esempt | Atodlen 2 |
| Atodlen 3 | Amcangyfrif gwerth contract | Atodlen 3 |
| Atodlen 4 | Gweithgareddau cyfleustodau | Atodlen 4 |
| Atodlen 5 | Cyfiawnhau gwobrau uniongyrchol | Atodlen 5 |
| Atodlen 6 | Rhesymau dros atal gorfodol | Atodlen 6 |
| | Rhan 1 Troseddau | Rhan 1 Troseddau |
| | Rhan 2 Rhesymau eraill dros atal gorfodol | Rhan 2 Rhesymau eraill dros atal gorfodol |
| | Rhan 3 Cyffredinol | Rhan 3 Cyffredinol |
| Atodlen 7 | Rhesymau dros atal yn ôl disgresiwn | Atodlen 7 |
| Atodlen 8 | Addasiadau contract a ganiateir | Atodlen 8 |
| Atodlen 9 | Cyflenwyr gwladwriaeth cytuniad (cytundebau rhyngwladol penodedig) | Atodlen 9 |
| Atodlen 10 | Contractau amddiffyn un ffynhonnell | Atodlen 10 |
| Atodlen 11 | Diddymiadau a dirymiadau | Atodlen 11 |